# Amrywiaeth o dystiolaeth ar gyfer Fframwaith sefydlu Cymru gyfan (FfSCG)o ran y blynyddoedd cynnar a gofal plant

Bydd y canllaw hwn yn helpu rheolwyr ac arweinwyr sy'n cefnogi staff drwy'r broses FfSCG.

Cyhoeddwyd gyntaf: 19 Hydref 2022

Diweddariad olaf: 12 Mehefin 2023

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.

Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/cymwysterau-ac-ariannu/fframweithiau-sefydlu/sefydlu-ar-gyfer-blynyddoedd-cynnar-a-gofal-plant/tystiolaeth-ffscg-blynyddoedd-cynnar-gofal-plant am y fersiwn diweddaraf.

Bydd y canllaw hwn yn helpu rheolwyr ac arweinwyr sy'n cefnogi staff drwy'r broses FfSCG.

Sut gall y canllaw yma helpu

# Y canllaw

Bydd y canllaw hwn yn helpu rheolwyr ac arweinwyr sy'n cefnogi staff drwy'r broses FfSCG.

Dyma restr o gyfleoedd posibl lle gellid cael tystiolaeth ‘yn naturiol’ a’i ddefnyddio fel rhan o dystiolaeth gweithiwr tuag at gwblhau FfSCG a chymwysterau.

Rydyn ni wedi nodi pa adrannau o'r logiau cynnydd y gall pob rhan o'r canllaw helpu gyda nhw.

Nid yw hon yn rhestr gyflawn a byddem yn eich annog i feddwl hefyd am ffyrdd eraill i weithwyr gasglu’r dystiolaeth.

### Cyfarfodydd tîm

Dangos

Yn ystod cyfarfod tîm, gellid defnyddio polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth y lleoliad i drafod:

- beth yw ystyr y termau ‘cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a gwahaniaethu’ **(o gofnod Cynnydd 1.3a).**

Gellir defnyddio cyfranogiad a chyfraniadau’r gweithwyr sy'n ymgymryd â FfSCG fel rhan o'r dystiolaeth ofynnol.

### Cwisiau tîm

Dangos

Gellid defnyddio cwisiau tîm i brofi gwybodaeth staff newydd am y FfSCG ac atgoffa staff eraill amdano.

Gellir defnyddio hwn hefyd i farnu a oes gan y gweithiwr wybodaeth ddigonol cyn cymeradwyo canlyniadau dysgu penodol.

## Arsylwi

Dangos

Arsylwi staff yn ymgysylltu â phlant a'u rhieni neu ofalwyr a gweld sut maen nhw'n rhyngweithio ac yn cyfathrebu. Gellid datblygu hyn ymhellach yn ystod trafodaeth un-i-un, wrth oruchwylio neu mewn sesiynau adborth

Er enghraifft:

- cydbwyso angen plentyn i arbrofi a chymryd rhai risgiau, gyda'ch dyletswydd i'w cadw'n ddiogel **(o gofnod cynnydd 1.5b)**
- datblygu perthnasoedd positif yng nghyd-destun 'ffiniau proffesiynol' **(o gofnod cynnydd 1.7b)**
- ffyrdd o fynd i'r afael â rhwystrau i gyfathrebu'n effeithiol **(o gofnod cynnydd 1.8)**
- Dilyn polisïau a gweithdrefnau'r **gweithle (o gofnod cynnydd 3.1b)**
- cymhwyso egwyddorion gweithio mewn partneriaeth yn eich gwaith gydag eraill **(o gofnod cynnydd 3.2b)**

## Adborth

Dangos

Pan dderbynnir adborth da am weithiwr penodol, gellir ei ddefnyddio fel tystiolaeth i gwblhau adrannau perthnasol FfSCG.

Gellir datblygu'r dystiolaeth hon ymhellach drwy drafodaeth un-i-un.

Gellid cynnig mentor o fewn y lleoliad – gallant gynnig cefnogaeth uniongyrchol i'r aelod newydd o staff, tra hefyd yn darparu tystiolaeth i bwy bynnag sy'n gyfrifol am fonitro FfSCG.o ran sut cafodd y safonau eu bodloni.

Gallai'r lleoliad ddarparu mentor i gynnig cymorth uniongyrchol i'r aelod newydd o staff. Gallai'r mentor hefyd ddarparu tystiolaeth i bwy bynnag sy'n gyfrifol am fonitro'r FfSCG.ynghylch sut mae'r aelod o staff yn bodloni safonau.

### Goruchwyliaeth

Dangos

Gallai goruchwyliaeth gynnwys trafodaeth un-i-un neu gynnig sgwrs strwythuredig, i gefnogi'r gweithiwr i gael tystiolaeth i gwblhau FfSCG.

### Cynnyrch gwaith

Dangos

Gellid adolygu a thrafod cynnyrch gwaith fel gwaith papur dyddiol, cofnodion ac arsylwadau i wirio gwybodaeth a sgiliau cyn cymeradwyo canlyniadau dysgu penodol.

### Rhaglen Sefydlu

Dangos

Gellid cynllunio rhaglen sefydlu'r lleoliad i sicrhau y byddai'r gweithiwr hefyd yn cael y dystiolaeth sydd ei hangen i gwblhau FfSCG, er enghraifft deall:

- pwrpas **swydd-ddisgrifiadau** a manylebau person ar gyfer diffinio disgwyliadau a chyfyngiadau rolau a chyfrifoldebau **(o gofnod cynnydd 3.1a**)
- ethos a strwythur y gweithle/lleoliad rydych yn gweithio ynddo a'ch rôl oddi fewn iddo **(o gofnod cynnydd 3.1b)**

## Astudiaeth achos / ‘beth os’

Dangos

Drwy ddefnyddio enghraifft o ‘fywyd go iawn’ o’r lleoliad, gellid gofyn i’r gweithiwr naill ai ysgrifennu ei farn am yr hyn y byddai’n ei wneud neu fanylu ar hyn mewn trafodaeth un-i-un gyda’i gyflogwr neu rheolwr a allai wedyn helpu i dynnu mwy o fanylion a/neu gynnig cyfeiriad.

## Trafodaeth un-i-un

Dangos

Gallai’r cyflogwr/rheolwr drefnu i gael sgwrs anffurfiol gyda’r gweithiwr i archwilio pynciau amrywiol, er enghraifft:

- ‘Pwysigrwydd gwybod beth yw dewisiadau a chefndir plentyn (y cyfuniad unigryw o brofiad, hanes, diwylliant, credoau, dewisiadau, perthnasoedd teuluol, rhwydweithiau anffurfiol a chymuned plentyn)’ **(o gofnod cynnydd 1.4a)**

- ‘Cwmpas a phwrpas sector y blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae’ **(o gofnod cynnydd 3.1a)**
- gellir defnyddio cyfraniadau gweithwyr newydd fel rhan o’u tystiolaeth **(o gofnod cynnydd 3.1a)**
- gellir defnyddio astudiaethau achos hefyd fel sail i drafodaeth un-i-un.

Yn ogystal, gellid defnyddio trafodaeth un-i-un yn dilyn unrhyw arsylwi.

## Rhaglen sefydlu’r lleoliad ei hun

Dangos

Fel rhan o’u rhaglen sefydlu, mae swydd-ddisgrifiad y gweithiwr yn debygol o gael ei adolygu gyda nhw’n rheolaidd, er mwyn sicrhau ei fod yn deall ei rôl a’i

gyfrifoldebau. Gallai’r gweithgaredd hwn alluogi’r gweithiwr i gofnodi tystiolaeth am:

- ‘Pwrpas **swydd-ddisgrifiadau** a manylebau person i ddiffinio disgwyliadau a chyfyngiadau rolau a chyfrifoldebau **(o gofnod cynnydd 3.1a)**

### Hyfforddiant

Dangos

Gellir defnyddio hyfforddiant i gwmpasu ystod eang o bynciau’r cofnodion cynnydd, yn dibynnu ar natur y wybodaeth a gwmpesir.

### Llawlyfr

Dangos

Mae llawlyfrau yn rhoi rhywfaint o syniadau a strwythur i’r cyflogwr neu rheolwr i gefnogi eu gweithwyr wrth gwblhau’r FfSCG. Gallant hefyd fod yn ddefnyddiol os na all y cyflogwr neu rheolwr gynnig cyfle i gael darn penodol o dystiolaeth o fewn eu gweithle.

### Cwestiynau a bennwyd ymlaen llaw

Dangos

Gellid defnyddio’r cwestiynau a bennwyd ymlaen llaw i helpu’r drafodaeth un-i-un a’r oruchwyliaeth gyda’r rheolwr neu cyflogwr, neu bod y gweithwyr yn eu defnyddio i gefnogi eu llawlyfr FfSCG.

Gall y cwestiynau a bennwyd ymlaen llaw helpu i sicrhau bod tystiolaeth yn ymwneud â'ch lleoliad yn benodol.

Enghreifftiau o gwestiynau a bennwyd ymlaen llaw:

- Disgrifiwch ein gwerthoedd a sut mae hyn yn berthnasol i weithio gyda rhieni a gofalwyr?

- Rydyn ni’n dathlu gwyliau amrywiol yn ystod mis Rhagfyr, er enghraifft, y Nadolig, Hanukkah a Kwanzaa. Beth fyddech chi’n ei wneud i sicrhau pob plant yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys ac yn dysgu mwy am yr amrywiaeth o wyliau?
- Rydyn ni’n ofalus iawn am feddiannu diwylliannol wrth sôn am ddiwylliannau gwahanol. Beth rydyn ni’n ei olygu wrth y term ‘meddiannu diwylliannol’ a sut gallwn ei osgoi?